

# Cynllun gwaith ar y cyd y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru ar gydlyniad ystadegau ar y Gymraeg

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r gwaith y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud yn ystod 2023-24 a thu hwnt i wella ein dealltwriaeth o'r prif ffynonellau data gweinyddol ac arolygon a ddefnyddir i lunio ystadegau ar y Gymraeg.

Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at sicrhau bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru yn parhau i gyhoeddi ystadegau gwerthfawr, o safon uchel am y Gymraeg y gellir ymddiried ynddynt (gan gynnwys y rhai a ariennir fel rhan o [Ymchwil Data Gweinyddol \(YDG\) Cymru](#)).

## Cefndir

Mae'r cyfrifiad yn casglu data am allu pobl tair oed neu'n hŷn yng Nghymru yn y Gymraeg. Ym marn Llywodraeth Cymru y cyfrifiad yw'r ffynhonnell awdurdodol o wybodaeth am allu'r boblogaeth yng Nghymru yn y Gymraeg. Cafodd [data am y Gymraeg o Gyfrifiad 2021](#) ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2022.

Mae strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg](#), yn amlinellu ei nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r strategaeth yn dweud yn glir y bydd y cyfrifiad yn cael ei ddefnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn y nod hwn. Mae'r llwybr ystadegol i filiwn o siaradwyr Cymraeg a ddatblygwyd ac a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r strategaeth hefyd yn seiliedig ar ddata'r cyfrifiad.

Yn ogystal, mae'r cyfrifiad yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i fesur cynnydd o ran y [dangosydd llesiant a'r garreg filltir genedlaethol ar nifer y siaradwyr Cymraeg](#).

Mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ystod o ystadegau eraill ar y Gymraeg o ffynonellau data amrywiol, o arolygon i ffynonellau data gweinyddol. Er enghraifft:

- Mae [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) Llywodraeth Cymru'n darparu ystadegau am allu oedolion 16 oed neu'n hŷn yn y Gymraeg yn flynyddol. Mae hefyd yn cynnwys ystadegau am ba mor aml mae siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith, ac i ba raddau y maent yn ystyried eu hunain yn rhugl.

- Mae'r [Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth](#) gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn darparu ystadegau ynghylch gallu pobl tair oed neu hŷn yn y Gymraeg. Mae hefyd yn cynnwys ystadegau am ba mor aml mae siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith. Mae'r ystadegau yma ar gael bob tri mis.

Er na ddylid cymharu'r ffynonellau data hyn yn uniongyrchol â data'r cyfrifiad oherwydd gwahaniaethau yn y ffordd y mae'r wybodaeth yn cael ei chasglu er enghraifft, fe'u defnyddir i fonitro tueddiadau o ran gallu yn y Gymraeg rhwng cyfrifiadau.

## Cyfrifiad 2021

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gyfrifol am y cyfrifiad yng Nghymru ac yn Lloegr. Mae cwestiwn ynghylch gallu yn y Gymraeg wedi cael ei gynnwys yn y cyfrifiad yng Nghymru ers 1891.

Roedd Cyfrifiad 2021 yn amcangyfrif bod dros 538,000 o bobl tair oed neu hŷn sy'n byw yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg, neu 17.8% o'r boblogaeth ar Ddiwrnod y Cyfrifiad (21 Mawrth 2021). Roedd hyn yn ostyngiad o bron i 24,000 o bobl ers Cyfrifiad 2011, neu 1.2 pwynt canran yn is na Chyfrifiad 2011.

Ar y llaw arall, amcangyfrifodd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth fod tua 884,000 o bobl tair oed neu hŷn yn gallu siarad Cymraeg yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, neu 29.2% o'r boblogaeth. Roedd hyn yn gynydd o bron i 134,000 o bobl ers y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011, neu 3.4 pwynt canran yn uwch.

Mae'r gwahaniaethau wedi bod ers tro yn yr amcangyfrifon o allu yn y Gymraeg rhwng y cyfrifiad ac arolygon aelwydydd fel yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, ac mae'r [Swyddfa Ystadegau Gwladol](#) a [Llywodraeth Cymru](#) wedi archwilio rhesymau posibl am rai o'r gwahaniaethau hyn yn y gorffennol.

Er bod arolygon aelwydydd fel arfer yn rhoi amcangyfrifon uwch i ni o allu i siarad Cymraeg, dyma'r tro cyntaf i'r cyfrifiad amcangyfrif bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn gostwng a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth amcangyfrif cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg.

Ar ôl cyhoeddi Cyfrifiad 2021, rydym yn blaenoriaethu gwaith i edrych yn fanylach ar y gwahaniaethau rhwng y ffynonellau data hyn. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys archwilio dulliau arloesol megis cysylltu data (drwy'r Gwasanaeth Data Integredig traws-lywodraethol newydd a'r Gronfa Ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL)), er mwyn sicrhau bod gennym sylfaen dystiolaeth gydlynol y gellir ei defnyddio i wneud penderfyniadau.

Wrth i'r cynllun gwaith hwn fynd rhagddo, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyhoeddi'r amcangyfrifon chwarterol diweddaraf o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol, gan roi cyngor clir i ddefnyddwyr ynghylch sut y dylid defnyddio a dehongli'r rhain yn sgil yr amcangyfrifon o Gyfrifiad 2021.

## Cynllun gwaith

Bwriad y cynllun gwaith lefel uchel a nodir yn yr adran hon yw archwilio'r gwahaniaeth a welwyd o ran y ffordd y mae pobl yn adrodd am eu sgiliau yn y Gymraeg. Bydd y cynllun gwaith isod yn caniatáu:

- Dealltwriaeth llawnach a mwy cynhwysfawr o'r rhesymau dros y gwahaniaeth hwn.
- Asesiad clir o ansawdd ffynonellau data gwahanol a sut y gellid gwella hyn.
- Cydweithio agosach rhwng y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru i gyflawni priod nodau strategol [Ystadegau er Budd y Cyhoedd](#) a [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr](#).
- Dangos manteision a gwerth y [Gwasanaeth Data Integredig](#) a'r [Gronfa Ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw \(SAIL\)](#).

Er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r prif ffynonellau data gweinyddol a'r arolygon a ddefnyddir i gynhyrchu ystadegau am y Gymraeg, bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru'n mynd i'r afael â'r tri phrif gwestiwn ymchwil canlynol.

- Beth yw'r gwahaniaethau yn yr amcangyfrifon o allu yn y Gymraeg rhwng y prif ffynonellau data am y Gymraeg?
- Pam maent yn wahanol, a pham fod y gwahaniaethau rhwng y ffynonellau data hyn yn newid dros amser?
- Sut allwn wella'r broses o gasglu gwybodaeth am allu yn y Gymraeg a fydd yn cefnogi polisiâu cyhoeddus am y Gymraeg ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol?

Mae'r adrannau isod yn amlinellu'r gwaith y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â phob un o'r cwestiynau ymchwil hyn yn eu tro. Bydd cynlluniau cyflenwi manylach yn cael eu datblygu ar gyfer pob un o'r prosiectau, ond lle'n bosibl mae camau interim wedi'u nodi ar gyfer rhai prosiectau yn y cynllun hwn.

**Beth yw'r gwahaniaethau yn yr amcangyfrifon o allu yn y Gymraeg rhwng y prif ffynonellau data am y Gymraeg?**

Rhif y prosiect	Cwestiwn ymchwil	Arweinydd/arweinwyr	Manylion y prosiect	Amserlen
1	Beth yw'r gwahaniaethau rhwng Cyfrifiad 2021 ac arolygon aelwydydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol o ran yr amcangyfrifon o allu yn y Gymraeg?	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru	Bydd y prosiect hwn yn defnyddio Gwasanaeth Data Integredig y Swyddfa Ystadegau Gwladol i ddadansoddi set ddata sy'n cysylltu data Cyfrifiad 2021 gydag Arolwg o'r Llafurlu ar lefel unigol. Bydd hyn yn fodd i ni ddeall nodweddion pobl sy'n adrodd am eu gallu yn y Gymraeg yn wahanol yng Nghyfrifiad 2021 a'r Arolwg o'r Llafurlu. Os yw'r sampl yn rhy fach i roi canlyniadau ystyrllon, gallai'r prosiect hwn gael ei ymestyn i gysylltu data'r Cyfrifiad â'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (fersiwn ehangach o'r Arolwg o'r Llafurlu) sy'n cynnwys ymatebwyr ychwanegol, er mwyn darparu amcangyfrifon gwell ar gyfer ardaloedd lleol.	Awst 2023

			<p>Camau interim</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal prosiect archwiliol i gytuno ar ofynion ar gyfer newidynnau a phroses ar gyfer cyrchu'r Gwasanaeth Data Integredig (Wedi'i gyflawni)</li> <li>• Cyflwyno cais am gymeradwyaeth ar gyfer y prosiect i Banel Achredu Ymchwil UKSA erbyn dechrau Mai</li> <li>• Gwneud ymchwil i asesu a yw maint sampl o'r Arolwg o'r Llafurlu'n ddigonol ar gyfer dadansoddiad ystyrlon.</li> <li>• Cynnal dadansoddiad a llunio adroddiad cryno ar nodweddion y bobl sy'n adrodd am eu gallu yn y Gymraeg yn wahanol yng Nghyfrifiad 2021 a'r Arolwg o'r Llafurlu.</li> </ul>	
2	Beth yw'r gwahaniaethau rhwng y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion a	Llywodraeth Cymru	I ddechrau, bydd y prosiect hwn yn archwilio dichonoldeb cysylltu data Cyfrifiad 2021 â data'r Cyfrifiad Ysgolion	Ionawr 2024

	<p>ffynonellau eraill o ran yr amcangyfrifon o allu yn y Gymraeg plant rhwng 5 a 15 oed mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol?</p>		<p>Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ar y lefel unigol gan ddefnyddio Gronfa Ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL). Gellid hefyd ehangu'r prosiect i ffynonellau eraill ar y Gymraeg yng Nghronfa Ddata SAIL megis asesiadau athrawon hanesyddol, cofnodion TGAU a Safon Uwch a data o Gofnodion Dysgu Gydol Oes Cymru.</p> <p>Yn amodol ar ganlyniad prosiect 1, gellid ei ehangu hefyd i gynnwys cyswllt â'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.</p> <p>Camau interim</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwyno cais am gymeradwyaeth ar gyfer y prosiect i Banel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth SAIL erbyn mis Awst.</li> <li>• Cynnal dadansoddiad a llunio adroddiad cryno ar nodweddion pobl sy'n adrodd yn wahanol am eu gallu yn y Gymraeg rhwng</li> </ul>	
--	--	--	---	--

			CYBLD, Cyfrifiad 2021 a ffynonellau eraill sydd wedi'u cynnwys yng nghwmpas y prosiect.	
<b>3</b>	Beth yw'r gwahaniaethau rhwng Arolwg Cenedlaethol Cymru a ffynonellau eraill o ran yr amcangyfrifon o allu oedolion 16 oed neu hŷn yn y Gymraeg?	Llywodraeth Cymru	I ddechrau, bydd y prosiect hwn yn archwilio dichonoldeb cysylltu data Cyfrifiad 2021 â data Arolwg Cenedlaethol Cymru ar y lefel unigol gan ddefnyddio'r Gronfa Ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL). Yn amodol ar ganlyniad prosiect 1, gellid ei ehangu hefyd i gynnwys cyswllt â'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.	Gwaith yn dilyn o brosiect 2

**Pam maent yn wahanol, a pham fod y gwahaniaethau rhwng y ffynonellau data hyn yn newid dros amser?**

Rhif y prosiect	Cwestiwn ymchwil	Arweinydd/arweinwyr	Manylion y prosiect	Amserlen
4	Beth yw effaith y modd arolygu a dyluniad arolygon ar gasglu gwybodaeth am allu yn y Gymraeg?	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru	<p>Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru wedi edrych o'r blaen ar effaith y modd arolygu a dyluniad arolygon ar gasglu gwybodaeth am allu yn y Gymraeg.</p> <p>Bydd y prosiect hwn yn dwyn ynghyd y gwahanol linyddau ymchwil hyn a bydd hefyd yn cynnwys tystiolaeth o'r gwaith o ddylunio a phrofi cwestiynau ar gyfer Cyfrifiad 2021 a Chyfrifiad 2011, yn ogystal â thystiolaeth o arolygon o ansawdd y cyfrifiadau ac arolygon aelwydydd eraill.</p> <p>Mae'r meysydd i'w harchwilio yn cynnwys:</p>	Awst 2023



			<ul style="list-style-type: none"> <li>• y gwahaniaethau rhwng holiaduron sy'n cael eu harwain gan gyfwelydd a holiaduron hunan-ymateb</li> <li>• y gwahaniaethau rhwng casglu gwybodaeth ar bapur, ar-lein a dros y ffôn</li> <li>• y gwahaniaethau rhwng arolygon statudol ac anstatudol</li> <li>• effaith ymatebion drwy ddirprwy</li> <li>• trefn y cwestiynau mewn holiaduron.</li> </ul> <p>Camau interim:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• adolygu a chrynhai tystiolaeth o'r gwaith o ddatblygu a phrofi Cyfrifiad 2011 a Cyfrifiad 2021</li> <li>• adolygu a chrynhai llenyddiaeth academaidd a rhyngwladol ehangach</li> <li>• llunio adroddiad o ganfyddiadau allweddol.</li> </ul>	
--	--	--	---	--

5	Pam mae'n ymddangos bod y gwahaniaethau rhwng y ffynonellau data am allu yn y Gymraeg yn newid dros amser?	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru	<p>Bydd y prosiect hwn yn defnyddio canfyddiadau o bob un o'r prosiectau blaenorol.</p> <p>Mae'r cyfraddau ymateb ar gyfer arolygon aelwydydd yn gostwng yn gyffredinol. A ydym yn gwybod a yw'r gostyngiad yn y cyfraddau ymateb hyn yn cael effaith ar newidiadau'n ymwneud â'r Gymraeg dros amser neu'n creu tuedd o fewn y data?</p>	Hydref 2023
---	--	---	--	-------------

**Sut allwn wella'r broses o gasglu gwybodaeth am allu yn y Gymraeg a fydd yn cefnogi polisïau cyhoeddus am y Gymraeg ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol?**

Rhif y prosiect	Cwestiwn ymchwil	Arweinydd/arweinwyr	Manylion y prosiect	Amserlen
6	Pa ddata sydd eisoes yn bodoli er mwyn deall mwy am bobl sy'n gallu siarad Cymraeg ond sy'n byw y tu allan i Gymru?	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol	<p>Byddai'r prosiect hwn yn golygu dogfennu'r anghenion ar gyfer y data hwn, ar gyfer llunio polisi cyhoeddus, sy'n cynyddu gyda phoblogaeth fwy byrhoedlog.</p> <p>Byddai angen cynnal ymarfer cwmpasu i edrych ar wahanol opsiynau neu ddulliau ar gyfer casglu'r data hwn a gwella cydlynid y data ar y pwnc hwn. Bydd canlyniad y prosiect yn cyfrannu at waith sydd eisoes ar y gweill yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar drawsnewid yr Arolwg o'r Llafurlu.</p> <p>Camau interim:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• dogfennu gofynion defnyddwyr y data hwn</li> </ul>	Awst 2023

			<ul style="list-style-type: none"><li>• adolygu'r data sy'n cael ei gasglu ar hyn o bryd ar bobl sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n byw y tu allan i Gymru</li><li>• ystyried opsiynau ar gyfer casglu data o'r fath gydag argymhelliad ar y ffordd ymlaen a ffafrir.</li></ul>	
--	--	--	--	--

## Trefniadau llywodraethu ac adrodd

1. Bydd grŵp llywio yn cael ei sefydlu i goruchwyllo'r cynllun gwaith hwn, a fydd yn cynnwys Llywodraeth Cymru a swyddogion o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Bydd y grŵp yn cyfarfod bob mis i fonitro cynnydd. Gall prosiectau hefyd sefydlu eu grwpiau gorchwyl a gorffen eu hunain. Bydd y tasglu'n rhoi diweddariadau rheolaidd, yn ôl y gofyn, i Weinidogion Llywodraeth Cymru a'r Ystadegydd Gwladol.
2. Cyhoeddir cynnydd a chanfyddiadau'r prosiectau drwy gyfuniad o gyhoeddiadau ystadegol neu ymchwil ffurfiol a prosesau rhannu gwybodaeth anffurfiol megis blogiau.

## Manylion cyswilt ar gyfer ystadegau Llywodraeth Cymru

Ymholiadau cyffredinol ynghylch ystadegau

E-bost: [desg.ystadegau@llyw.cymru](mailto:desg.ystadegau@llyw.cymru)

Pwnc-benodol

[Cysylltiadau ar gyfer ystadegau](#)

Trydar 

[YstadegauCymru](#)

Cylchlythyr electronig a gwasanaeth hysbysiadau Llywodraeth Cymru

[Newyddion a hysbysiadau](#)

Ymholiadau gweinyddol

E-bost [kasadmin@llyw.cymru](mailto:kasadmin@llyw.cymru)